



Cynwysedig Wrth Reddf

Ein hymrwymiad i: **Tegwch Parch Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant Ymgysylltu (FREDIE)** - 2022 - 2025

Cyflwyniad

Mae 'Cynwysiedig Wrth Reddf 2022-2025' yn adeiladu ar lwyddiannau'r tair blynedd diwethaf, tra'n tanategu uchelgeisiau ein Grŵp ar gyfer y degawd i ddod. Dim ond trwy wreiddio meddylfryd **FREDIE** yn ein hymagwedd y gellir cyflawni'r llinynnau aur yn ein 5 piler uchelgais.

Darllenwch 'Uchelgeisiau Ein Pobl - y degawd nesaf o wneud gwahaniaeth' yma

Wrth nodi ein hymrwymadau **FREDIE** ar gyfer y tair blynedd nesaf rydym wedi gwranddo ar yr hyn y mae ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid wedi'i ddweud wrthym ac wedi creu Cynllun i sicrhau ein bod yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf lle mae'n bwysig. Rydym yn cydnabod gwerth cael ymagwedd Amrywiol a Chynhwysol at ein cydweithwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid

Byddwn yn adolygu ein hymrwymadau **FREDIE** yn barhaus i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Taith ac nid cyrchfan yw **FREDIE**.

Pwy ydym ni...

Rydym yn helpu pobl i ddod o hyd i le gwych i'w alw'n gartref; rydym hefyd yn cynnig ystod eang o wasanaethau gofal a chymorth i helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Mae ein cydweithwyr yn gwneud gwahaniaeth...

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel fîm gydag angerdd enfawr dros wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Diwylliant Ein Pobl...

Rydym yn ymdrechu i fod yn lle gwych i weithio, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hysgogi;
Rydym yn cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd, gan wrando bob amser ar ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid.

Tegwch Parch Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant Ymgysylltu wrth galon ein Gwethoedd...



Yn Pobl dyma mae **FREDIE** yn ei olygu i ni:

F

Mae **tegwch** i bawb yn realiti, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau

R

Parch at bawb yw'r norm ac ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn cwsmeriaid neu gydweithwyr

E

Mae cyfle **cyfartal** wedi'i wreiddio yn y penderfyniadau a wnawn a phopeth a wnawn

D

Mae **amrywiaeth** yn cael ei ddathlu ac mae ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid yn teimlo eu bod yn perthyn

I

Deellir **cynhwysiant** yn eang, lle mae pob cydweithiwr wedi ymrwymo i ymddygiad a pholisiau cynhwysol a lle mae cwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnynt

E

Ymgysylltu – lle mae ymlyniad emosiynol cadarnhaol rhwng ein cydweithwyr a'u gwaith; lle yr ymgynghorir â'n cwsmeriaid a lle maent yn chwarae rôl allweddol wrth lunio ein gwasanaethau

Ein dyletswyddau cydraddoldeb

Deddf Cydraddoldeb 2021

Mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei nodwedd(ion) gwarchoddedig. Dyma'r term a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i gydnabod agweddau penodol ar hunaniaeth person a all olygu eu bod yn profi gwahaniaethu. Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oed
- Hil
- Rhyw
- Crefydd neu Gred
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Ailbennu rhywedd.

Mae ein hymrwymiaidau **FREDIE** yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn neb o ganlyniad i feddu ar un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig hyn.

'Gweithredoedd nid Geiriau' – Addewid i roi terfyn ar anghydraddoldeb hiliol ar gyfer Tai Cymdeithasol yng Nghymru.

Gweithredoedd nid Geiriau

Yn Pobl rydym wedi ymrwymo i gymryd y camau canlynol yn ystod y 5 mlynedd nesaf:

- Lliniaru effaith Covid-19 ar gydweithwyr a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig eraill
- Gwella amrywiaeth ethnig ein Bwrdd a chydweithwyr ar bob lefel
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'n cefnogaeth i gydraddoldeb hiliol
- Datblygu diwylliant cynhwysol i Pobl

Mae cynllun gweithredu ar wahân yn nodi'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r Addewid a darperir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn ôl y camau hynny.

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol drwy wneud y canlynol:

- Dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn disgrifio pobl fel rhai sy'n anabl oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu nam neu wahaniaeth. Mae cael gwared ar y rhwystrau hyn yn creu cydraddoldeb ac yn cynnig mwy o annibyniaeth, dewis a rheolaeth i bobl anabl. Mae ein dull o ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar asedau, sy'n golygu ein bod yn cydnabod ac yn datblygu ar gryfderau a galluoedd ein cwsmeriaid i'w galluogi i gyflawni eu dyheadau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'n helpu i ddeall sut y gallai ein polisiau a'n penderfyniadau effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig ac a oes angen gweithredu priodol i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol.

Ein datganiad cenhadaeth **FREDIE :**

Bydd Grŵp Pobl yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo tegwch, croesawu amrywiaeth a herio gwahaniaethu.

Cynnydd dros y tair blynedd diwethaf...



Investors in Diversity

Ail-achredwyd gyda Gwobr Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth ym mis Ionawr 2020.



Gostyngodd Bwlch Cyflog Cymedrig Rhwng y Rhywiau Pobl 2021 **0.71%** o gymharu â 2020.

FREDIE

Crëwyd 'Ein Huchelgeisiau Pobl' yn 2021 gyda themâu **FREDIE** yn ymddangos fel llinyn euraidd ym mhob un o'r 5 Piler.



Lansio cynllun Mentora Cydfuddiannol Pobl i hybu trafodaeth a dysgu rhwng cydweithwyr o gefndiroedd gwahanol.



Mewn ymateb uniongyrchol i bandemig Covid-19, lanswyd gwasanaethau Lles Pobl mewnol ac allanol i roi cyngor a chymorth i gydweithwyr a chwsmeriaid.



Wedi gweithio gyda phartneriaid yng Nghasnewydd ac Abertawe i gyflwyno datrysiad arloesol i ddigartrefedd Ffoaduriaid.



Wedi gweithio gyda chydlynwyr y Cyfrifiad Cenedlaethol i hyrwyddo cwblhau cwestiynau Cyfrifiad 2021 ymhlith ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid fel bod y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt yn cael eu cynrychioli'n gywir yn y set ddata genedlaethol.



Wedi diweddarau Fframwaith Caffael Pobl i ymgorffori egwyddorion **FREDIE**.



Wedi llofnodi '**Addewid Gweithredoedd nid Geiriau**' Tai Pawb i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol mewn Tai.



Wedi defnyddio **Offeryn Asesu Risg Gweithlu Covid-19 Cymru Gyfan** i nodi a chefnogi'r cydweithwyr hynny sydd mewn mwy o berygl o Covid-19.

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi darparu:



Dros 50 o sesiynau rhithwir Cydraddoldeb ac Amrywiaeth



12 gewithdy FREDIE yn cwmpasu pob is-adran yn y Grŵp, gan alluogi cydweithwyr i gael profiad ymarferol o sut y gall ymddygiad effeithio ar y busnes



4 sesiwn hyfforddi ar sut i ddeall a chwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



12 Gweithdy 'Arwain dros Gynhwysiant'



8 Gweithdai 'Gwrth Hiliaeth'


Sy'n golygu bod..



200 o gydweithwyr wedi cwblhau Hyfforddiant Tuedd Anrwybybodol



500 o gydweithwyr wedi cwblhau e-Ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth



800 o gydweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant ystafell ddosbarth rhithwir Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan gynnwys Gweithdai **FREDIE**



160 o Reolwyr wedi cwblhau'r Gweithdy 'Arwain dros Gynhwysiant'

1640 o gydweithwyr wedi cymryd rhan yn ein harolwg Lleisiau Cydweithwyr ym mis Hydref 2021. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan ar themâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth penodol, gan ddangos cynnydd da o ran gwreiddio **Tegwch Parch Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant Ymgysylltu** yn Pobl.

7.9/10

Mae prosesau recriwtio Pobl yn denu ac yn dewis gweithlu amrywiol (er enghraifft, o ran rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, statws economaidd-gymdeithasol)



“Ie cael ei werthfawrogi ond weithiau mae angen i hyn gael ei hidlo i lawr yn fwy i’r rheng flaen yn bersonol gan uwch reolwyr i unigolion”

- Adborth gan gydweithwyr



8.8/10

Yn Grŵp Pobl, mae pobl o bob cefndir yn cael eu derbyn am bwy ydyn nhw

8.5/10

Rwy'n fodlon ar ymdrechion Pobl i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant (er enghraifft, o ran rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, statws economaidd-gymdeithasol)



8.6/10

Mae pobl o bob cefndir yn cael yr un cyfleoedd yn Pobl



7.5/10

Rwy'n teimlo ymdeimlad o berthyn yn Pobl

“Weithiau mae cael eich gwerthfawrogi fel person yn cael ei gollu oherwydd bod pawb yn brysur. Fodd bynnag, teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi fel grŵp o reolwyr”

- Adborth gan gydweithwyr



8.5/10

Rwy'n hyderus na fyddaf yn cael fy ngwahaniaethu yn Pobl

“Yn enwedig trwy'r cyfyngiadau symud, mae Pobl wedi gwneud i mi deimlo'n werthfawr iawn. Yn ystod amseroedd tywyllaf Covid fe wnaethon nhw ein codi ni yn ôl eto, wedi rhoi cwtsh rhithwir ac wedi'ch atgoffa bod yr hyn roeddech chi'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth enfawr”

- Adborth gan gydweithwyr

7.4/10

Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi fel person yn Pobl



8.6/10

Credaf y byddai Pobl yn ymateb yn briodol i achosion o wahaniaethu



**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2022 – 2025
a'r canlyniadau i gwsmeriaid, cydweithwyr a rhanddeiliaid ...**



Ymrwymiad i'n Cwsmeriaid

Edau aur: Strategaeth Cysylltwyr Cwsmeriaid, Strategaeth Creu Lleoedd, Strategaeth Torwyr Carbon, strategaeth Technoleg i'r Uchafswm

Rydym yn sicrhau bod y cartrefi a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid yn bodloni eu dyheadau; rydym yn eu galluogi i gael mynediad at y gwasanaethau priodol o'r ansawdd uchaf y maent eu heisiau a'u hangen. Rydym yn cynnig empathi a dealltwriaeth i'n cwsmeriaid ac yn eu parchu fel unigolion.

Canlyniad 1

Rydym yn gwybod pwy yw ein cwsmeriaid ac yn cynnig dealltwriaeth, personoli a dewis.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Defnyddio mewnwelediad cwsmeriaid a data i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella cynllun gwasanaethau a dileu rhwystrau i gynhwysiant.
- Defnyddio gwybodaeth leol, 'Cynlluniau Beth sy'n Bwysig' a'n sefydliadau partner i roi gwybod i ni am unrhyw faterion allweddol sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid.
- Trin ein cwsmeriaid fel unigolion a chydabod 'nad yw un maint yn addas i bawb'.
- Meithrin ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid fel eu bod yn teimlo'n rhan o deulu Pobl.

Canlyniad 2

Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau ar bob cyfle.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Creu model partneriaeth gyda'n cwsmeriaid trwy wahodd unigolion, cymunedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'n sgysiau **FREDIE**.
- Rhoi gwybod i'n cwsmeriaid am gynnydd trwy gydol unrhyw ryngweithio a chyfathrebu unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i adborth cwsmeriaid.
- Cael gwared ar unrhyw rwystrau i gyfathrebu a dealltwriaeth; cefnogi cwsmeriaid nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cyrchu gwasanaethau Pobl ar-lein .
- Ehangu cyfleoedd a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng cwsmeriaid o wahanol grwpiau cymdeithasol neu'r rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Canlyniad 3

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid yn bodloni eu dyheadau drostynt eu hunain, eu teulu a'u cymuned.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Dylunio cartrefi a gwasanaethau hygyrch ac addasadwy sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i alluogi pobl hŷn, pobl anabl a theuluoedd mawr neu aml-ffydd i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol.
- Cymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at ein cwsmeriaid, gan nodi profiad unigryw pob person a theilwra ein gwasanaethau i'w gofynion unigol.
- Sicrhau bod ein hamgylcheddau gofal a chymorth yn cael eu llywio'n seicolegol.
- Galluogi a grymuso ein cwsmeriaid a'n cymunedau i ddatblygu atebion sy'n gweithio iddyn nhw.

Ymrwymiad i'n Cydweithwyr

Edau euraidd: Strategaeth Chwaraewyr Tîm a strategaeth Technoleg i'r Uchafswm

Mae Tegwch Parch Cydraddoldeb Amrywiaeth Cynhwysiant Ymgysylltu wedi'i wreiddio ac yn amlwg yn niwylant Pobl. Rydym yn helpu ein cydweithwyr i werthfawrogi egwyddorion FREDIE; rydym yn cefnogi eu llesiant ac yn dileu unrhyw rwystrau i ddilyniant.

Canlyniad 1

Mae amrywiaeth eang ledled Pobl.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gwreiddio FREDIE yn ein prosesau hyrwyddo, datblygu a rheoli perfformiad, gan greu amgylchedd teg sy'n cadw talent
- Cael gwared ar unrhyw rwystrau i recriwtio a defnyddio gweithredu cadarnhaol i ddenu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol.
- Casglu a monitro data ar Nodweddion Gwarchodedig ein cydweithwyr i lywio sut rydym yn eu cefnogi.
- Darparu mynediad cyfartal i gyfleoedd o fewn Pobl i bobl o bob cefndir.

Canlyniad 2

Mae gan gydweithwyr y Dysgu a'r Sgiliau i arddangos ymddygiadau FREDIE.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gwella sgiliau ein cydweithwyr ar bynciau allweddol FREDIE a chynnig rhaglen ddysgu gyfunol wedi'i theilwra i'r ffordd y mae pobl eisiau dysgu.
- Dathlu gwahaniaethau, codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu a hyrwyddo.
- Galluogi a grymuso ein cydweithwyr, gan greu hunan-ddilysrwydd, fel bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.
- Sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u dyletswydd i herio ymddygiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'n hegwyddorion FREDIE yn briodol.

Canlyniad 3

Mae cydweithwyr yn wydn ac mae eu Lles yn cael ei gefnogi.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Creu amgylchedd diogel, cadarnhaol i weithio ynddo a chynnig y dechnoleg gywir i'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid.
- Cydnabod y cyfraniad y mae ein cydweithwyr yn ei wneud a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.
- Darparu opsiynau gwaith hyblyg i weddu i amgylchiadau bywyd a dyheadau ein cydweithwyr.
- Darparu gwasanaeth llesiant mewnol parhaus, sy'n hygyrch i bob cydweithiwr, sy'n darparu cymorth priodol ar gyfer anghenion pob unigolyn.

Ymgorffori a Hyrwyddo

Edau aur: Strategaeth Chwaraewyr Tîm, strategaeth Torwyr Carbon, strategaeth Gwneuthurwyr Lle

Mae FREDIE yn daith barhaus ac rydym yn cymryd camau i ddysgu, arloesi a dylanwadu.

Canlyniad 1

Mae ffocws ac arweiniad clir ar agenda FREDIE ac mae FREDIE wedi'i wreiddio yn ein holl benderfyniadau.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod ein Bwrdd a'n Uwch Dîm Arwain yn modelu ymddygiadau FREDIE ac yn parhau i ystyried FREDIE yn eu trafodaethau a'u penderfyniadau.
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob polisi a phenderfyniad sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr, trwy ymgysylltu ystyrlon a 'chywiro' ar hyd y ffordd.
- Parhau i ddyrannu cyllideb ac adnoddau i agenda FREDIE i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau fel Grŵp.
- Lleoli grŵp llywio FREDIE fel cynghorydd dibynadwy a chyfaill beirniadol i'r busnes, gan ddarparu arweiniad, cymorth a her.

Canlyniad 2

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein Gwerthoedd Pobl a'n hegwyddorion FREDIE.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gweithio gyda phartneriaid a all gefnogi ein huchelgais i greu cymunedau diogel ac amrywiol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gysylltiedig ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cefnogi economi Cymru a galluogi cadwyni cyflenwi lleol i ffynnu
- Sicrhau bod tystiolaeth o fudd cymunedol yn ein penderfyniadau caffael.
- Gweithio gyda sefydliadau amrywiol i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a phrofiad gwaith.

Canlyniad 3

Rydym yn defnyddio brand a safle Pobl i ddylanwadu ar agenda FREDIE y tu hwnt i'n sefydliad ein hunain.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod FREDIE yn rhedeg trwy ein brandio, marchnata a phresenoldeb ar-lein gyda phwyslais ar iaith gadarnhaol a hyrwyddo FREDIE
- Bod yn arloesol yn ein hymagwedd at ddylunio gwasanaethau, creu cartrefi a all esblygu a diwallu newidiadau mewn cyfnod bywyd, anghenion, technoleg ac ynni.
- Lobïo dros agenda FREDIE trwy ddylanwadu ar lunio polisi a deddfwriaeth, eirioli dros bobl ac ymgysylltu ag asiantaethau partner.
- Datblygu a hyrwyddo cynnig iaith Gymraeg ar gyfer y Grŵp.

Ein cynllun gweithredu FREDIE

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
Rydym yn gwybod pwy yw ein cwsmeriaid ac yn cynnig dealltwriaeth, personoli a dewis.	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio mewnwelediad cwsmeriaid a data i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella cynllun gwasanaethau a dileu rhwystrau i gynhwysiant. 	Defnyddio MS Dynamics i sefydlu set ddata lawn ar ein cwsmeriaid a arweinir gan brosiect y Ddeddf Rhentu Cartrefi.	Tachwedd 2022	Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer/ Grŵp Prosiect Rhentu Cartrefi
	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio gwybodaeth leol, 'Cynlluniau Beth sy'n Bwysig' a'n sefydliadau partner i roi gwybod i ni am unrhyw faterion allweddol sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid. 	Defnyddio data cwsmeriaid i ddiweddarau'r cynllun hwn a llywio camau gweithredu yn y dyfodol.	Tachwedd 2022	Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer
	<ul style="list-style-type: none"> Trin ein cwsmeriaid fel unigolion a chydabod 'nad yw un maint yn addas i bawb'. 	Gweithio gyda'r tîm Data a Mewnwelediad i ddatblygu cyfres o DPAAu sy'n ein galluogi i ddeall a monitro'r hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym o ran profiadau cwsmeriaid, canlyniadau, dewisiadau a demograffeg.	Tachwedd 2022	Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer
	<ul style="list-style-type: none"> Meithrin ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid fel eu bod yn teimlo'n rhan o deulu Pobl. 	Lansio'r porth cwsmeriaid i gynyddu'n sylweddol lefel y 'trafodion' a gwblheir gan hunanwasanaeth. Dylunio a darparu cymorth dysgu i gwsmeriaid ar draws ein portffolio, gan ysgogi cynhwysiant digidol a chodi llythrennedd.	Rhagfyr 2022	Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer
		Optimeiddio ein mecanweithiau adborth presennol i greu dull cyson ond hyblyg o wrando ar lais ein cwsmeriaid. Gwella teimlad cwsmeriaid i fodlonrwydd o 95%.	Gorffennaf 2022	Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau ar bob cyfle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Creu model partneriaeth gyda'n cwsmeriaid trwy wahodd unigolion, cymunedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'n sgysiau FREDIE. • Rhoi gwybod i'n cwsmeriaid am gynnydd trwy gydol unrhyw ryngweithio a chyfathrebu unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i adborth cwsmeriaid. • Cael gwared ar unrhyw rwystrau i gyfathrebu a dealltwriaeth; cefnogi cwsmeriaid nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu sy'n ei chael yn anodd cyrchu gwasanaethau Pobl ar-lein. • Ehangu cyfleoedd a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng cwsmeriaid o wahanol grwpiau cymdeithasol neu'r rhai â nodweddion gwarchoddedig. 	<p>Creu cynlluniau 'Beth sy'n Bwysig' gyda'n cwsmeriaid i fynd i'r afael â'r heriau a manteisio ar gyfleoedd sy'n bodoli o fewn ein cymunedau.</p> <p>Defnyddio cyfuniad o atebion digidol a dynol cwbl gynhwysol 'yn seiliedig ar le' i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a sefydlu diwylliant 'mawr ond lleol'.</p> <p>Rhoi rhaglen 'Llais y Cydweithiwr' ar waith sy'n cyd-fynd â'n gweithgarwch Llais y Cwsmer i greu golwg 360 gradd o'n gwasanaethau.</p> <p>Gwella aelodaeth ein plattform adborth 'Lleisiau Cwsmeriaid' i sicrhau ein bod yn clywed y lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein cymunedau.</p>	<p>Awst 2022</p> <p>Rhagfyr 2022</p> <p>Mawrth 2023</p> <p>Parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer</p> <p>Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer</p> <p>Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer/Cyfarwyddwr Gweithrediadau AD</p> <p>Cyfarwyddwr Profiad Cwsmer</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Mae'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid yn bodloni eu dyheadau drostynt eu hunain, eu teulu a'u cymuned.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dylunio cartrefi a gwasanaethau hygyrch ac addasadwy sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i alluogi pobl hŷn, pobl anabl a theuluoedd mawr neu aml-ffydd i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol. • Cymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at ein cwsmeriaid, gan nodi profiad unigryw pob person a theilwra ein gwasanaethau i'w gofynion unigol. • Sicrhau bod ein hamgylcheddau Gofal a Chymorth yn cael eu llywio gan seicolegol. • Galluogi a grymuso ein cwsmeriaid a'n cymunedau i ddatblygu atebion sy'n gweithio iddyn nhw. 	<p>Sefydlu grŵp tasg i ddeall y materion sy'n ymwneud â byw aml-genhedlaeth ac archwilio datrysiadau sy'n gweithio i'r cwsmer a'r busnes.</p> <p>Rhoi mentrau ar waith sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan gynnwys cynyddu llythrennedd Carbon ein timau a'n cwsmeriaid.</p> <p>Ymgorffori dull HEARTS (Gofal) a PIE (Cymorth) ar draws ein cynlluniau i sicrhau bod ein gwasanaethau a gynigir yn yr amgylcheddau hynny yn cael eu hysbysu'n seicolegol.</p> <p>Mabwysiadu dull Datblygu Cymunedol ar Sail Asedau i rymuso pobl i ddefnyddio asedau ac adnoddau'r gymuned ei hun i ddod o hyd i ateb.</p>	<p>Rhagfyr 2022</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	<p>Grŵp llywio FREDIE /Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau</p> <p>Pennaeth Cynladwyedd</p> <p>Cyfarwyddwr Gofal/Cyfarwyddwr Cymorth</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau Tai/Cyfarwyddwr Adfywio</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Mae amrywiaeth eang ledled Pobl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwreiddio FREDIE yn ein prosesau hyrwyddo, datblygu a rheoli perfformiad, gan greu amgylchedd teg sy'n cadw talent. Cael gwared ar unrhyw rwystrau i recriwtio a defnyddio gweithredu cadarnhaol i ddenu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Casglu a monitro data am Amrywiaeth ein cydweithwyr i lywio sut rydym yn eu cefnogi. Darparu mynediad cyfartal i gyfleoedd o fewn Pobl i bobl o bob cefndir. 	<p>Datblygu Fframwaith Recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd ac adeiladu brand cyflogwr cryf o 'Wneuthurwyr gwahaniaeth' yn unol ag uchelgeisiau 'Chwaraewyr Tîm'.</p> <p>Symud ymlaen â'r ymrwymadau a nodir yn yr Addewid "Gweithredoedd nid Geiriau' yn unol â chynllun gweithredu DNW ar wahân.</p> <p>Cyflwyno ymgyrchoedd Cyfathrebu cyfnodol i sicrhau ein bod yn cadw 100% o Ddata Personol ar ein cydweithwyr. Datblygu cyfres o DPAau a chynnal gwaith dehongli a monitro ein data pobl yn rheolaidd. Defnyddiwch y DPAau hyn i lywio iteriadau'r Cynllun hwn yn y dyfodol.</p> <p>Monitro effeithiolrwydd 'Addewid y Bobl' trwy ganlyniadau arolwg lleisiau cydweithwyr.</p> <p>Cynyddu'r ffocws a'r gefnogaeth a ddarperir o amgylch niwroamrywiaeth i ddangos ein hymrwymiad i fod yn Gyflogwr Cydsyniad Anabledd.</p>	<p>Ebrill 2023-2024</p> <p>2022-2025</p> <p>2022/23</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl/Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Grŵp llywio FREDIE</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau AD/Partneriaid Busnes Cyfathrebu/Pennaeth Data a Mewnwelediad</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Grŵp Llywio Pobl/FREDIE</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau AD/grŵp llywio FREDIE</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Mae gan gydweithwyr y Dysgu a'r Sgiliau i arddangos ymddygiadau FREDIE.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella sgiliau ein cydweithwyr ar bynciau allweddol FREDIE a chynnig rhaglen ddysgu gyfunol wedi'i theilwra i'r ffordd y mae pobl eisiau dysgu. • Dathlu gwahaniaethau, codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu a hyrwyddo. • Galluogi a grymuso ein cydweithwyr, gan greu hunan-ddilysrwydd, fel bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn. • Sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u dyletswydd i herio ymddygiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'n hegwyddorion FREDIE yn briodol. 	<p>Datblygu system Datblygu Talent gynhwysol, wedi'i hunan-gyfarwyddo ar gyfer Pobl.</p> <p>Ail-ddylunio'r rhaglen hyfforddi Tuedd Anymwybodol a'i chyflwyno i'n holl gydweithwyr, ynghyd â sesiynau gloywi ar bynciau eraill sy'n ymwneud â FREDIE</p> <p>Datblygu a hyrwyddo grwpiau diddordeb arbennig/cefnogi trwy Poblpoint (ein mewnrwyd).</p>	<p>Gorffennaf 2022</p> <p>2022/23</p> <p>2022/23</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl/Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Grŵp llywio FREDIE /tîm cyfathrebu</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Bod cydweithwyr yn wydn ac mae eu Lles yn cael ei gefnogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Creu amgylchedd diogel, cadarnhaol i weithio ynddo a chynnig y dechnoleg gywir i'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. • Cydnabod y cyfraniad y mae ein cydweithwyr yn ei wneud a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. • Darparu opsiynau gwaith hyblyg i weddu i amgylchiadau bywyd a dyheadau ein cydweithwyr. • Darparu gwasanaeth llesiant mewnol parhaus, sy'n hygyrch i bob cydweithiwr, sy'n darparu cymorth priodol ar gyfer anghenion pob unigolyn. 	<p>Dylunio rhaglen ddysgu sy'n galluogi cydweithwyr i ddod yn ddigidol hyderus gyda 'Dysgu a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol'</p> <p>Datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn arolygon Llesiau Cydweithwyr a gwella teimlad cydweithwyr.</p> <p>Hwyluso mwy o ddewis i'n pobl ynghylch ble, pryd a sut i weithio yn unol ag uchelgeisiau 'Chwaraewyr Tîm'.</p> <p>Datblygu cynllun gweithredu lechyd a Lles i alluogi cynnig cyflawn i'n holl gydweithwyr. Mesur lles a gwydnwch parhaus ein cydweithwyr.</p>	<p>Rhagfyr 2022</p> <p>Mai 2022</p> <p>Ebrill 2023</p> <p>Ebrill 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Technoleg ac Atebion Busnes/Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl/Cyfarwyddwr Gweithrediadau AD</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl</p> <p>Pennaeth Lles Cydweithwyr</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Mae ffocws ac arweiniad clir ar agenda FREDIE ac mae FREDIE wedi'i wreiddio yn ein holl benderfyniadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod ein Bwrdd a'n Uwch Dîm Arwain yn modelu ymddygiadau FREDIE ac yn parhau i ystyried FREDIE yn eu trafodaethau a'u penderfyniadau. Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob polisi a phenderfyniad sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr, trwy ymgysylltu ystyrllon a 'chywiro' ar hyd y ffordd. Parhau i ddyrannu cyllideb ac adnoddau i agenda FREDIE i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiaadau fel Grŵp. Lleoli grŵp llywio FREDIE fel cyngorydd dibynadwy a chyfaill beirniadol i'r busnes, gan ddarparu arweiniad, cymorth a her. 	<p>Cyflawni ail-achrediad bob dwy flynedd o Farc Ansawdd 'Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth' y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth.</p> <p>Sicrhau bod y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith yn adlewyrchu FREDIE yn ymarferol trwy drafod a chraffu o safbwynt cydraddoldeb Adrodd ddwywaith y flwyddyn ar gynnydd yn ôl y cynllun hwn.</p> <p>Dylunio a lansio 'My Pobl Journal' i ddisodli'r MDP blynyddol ac ychwanegu strwythur i'r broses 1-2-1.</p> <p>Sicrhau bod pob polisi newydd a diwygiedig yn cael Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.</p> <p>Gwella aelodaeth grŵp llywio FREDIE trwy recriwtio aelodau ychwanegol sydd ag amrywiaeth o feddwl ac angerdd am hawliau cyfartal.</p>	<p>Rhagfyr 2022/ Rhagfyr 2024</p> <p>Ionawr 2023</p> <p>Ionawr 2023</p> <p>Rhagfyr 2023</p> <p>Rhagfyr 2022</p>	<p>Arweinydd Strategol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p> <p>Prif Weithredwr y Grŵp</p> <p>Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Pennaeth Sicrwydd</p> <p>Arweinydd Strategol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
<p>Rydym yn gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein Gwerthoedd Pobl a'n hegwyddorion FREDIE.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid a all gefnogi ein huchelgais i greu cymunedau diogel ac amrywiol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gysylltiedig ac yn cael eu gwerthfawrogi. • Cefnogi economi Cymru a galluogi cadwyni cyflenwi lleol i ffynnu. Sicrhau bod tystiolaeth o fudd cymunedol yn ein penderfyniadau caffael. • Gweithio gyda sefydliadau amrywiol i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a phrofiad gwaith. 	<p>Datblygu'r 'strategaeth Crewyr Lleoedd' i ymgorffori gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i ystyried cylch bywyd cyfan, effaith amgylcheddol, cymdeithasol a moesegol nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir.</p> <p>Datblygu cynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i gryfhau perthnasoedd â phartneriaid cyflawni lleol hanfodol.</p> <p>Rhoi mentrau hyfforddi a chyflogaeth ar waith yn unol â'n strategaeth Crewyr Lleoedd sy'n creu cyfleoedd i bobl leol a'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddiweithdra.</p>	<p>Mawrth 2023</p> <p>Mawrth 2023</p> <p>Parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Masnachol/Cyfarwyddwr Adfywio</p> <p>Cyfarwyddwr Adfywio</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Masnachol/Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu</p>

CANLYNIAD	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN	GWEITHREDOEDD	DYDDIAD TARGED	ARWAIN
Rydym yn defnyddio brand a safle Pobl i ddylanwadu ar agenda FREDIE y tu hwnt i'n sefydliad ein hunain.	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod FREDIE yn rhedeg trwy ein brandio, marchnata a phresenoldeb ar-lein gyda phwyslais ar iaith gadarnhaol a hyrwyddo FREDIE. Bod yn arloesol yn ein hagwedd at ddylunio gwasanaethau, creu cartrefi a all esblygu a chwrdd â newidiadau mewn cyfnod bywyd, anghenion, technoleg ac ynni. Lobïo dros agenda FREDIE trwy ddylanwadu ar lunio polisi a deddfwriaeth, eirioli dros bobl ac ymgysylltu ag asiantaethau partner. Datblygu a hyrwyddo cynnig Iaith Gymraeg ar gyfer y Grŵp. 	<p>Datblygu gwefan newydd Pobl sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n ddwyieithog ac sy'n cynnwys swyddogaethau hunanwasanaeth.</p> <p>Dod â thechnoleg i'n cartrefi i helpu i'w diogelu at y dyfodol a chefnogi ein huchelgeisiau o adeiladu a rheoli lleoedd hardd lle mae pobl a chymunedau'n ffynnu.</p> <p>Parhau i lobïo cyrff gwneud penderfyniadau a chymryd rhan mewn rhwydweithiau FREDIE allanol.</p> <p>Datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Pobl sy'n ymgorffori cynllun cyflawni Cynnig Rhagweithiol</p>	<p>Tachwedd 2022</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Gorffennaf 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata</p> <p>Cyfarwyddwr Technoleg ac Atebion Busnes/Cyfarwyddwr Gweithredol Masnachol</p> <p>Grŵp llywio FREDIE</p> <p>Arweinydd Strategol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p>

Mae Grŵp Pobl yn parhau i gadw achrediad Buddsoddwyr mewn **Amrywiaeth Cam 2** y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth sy'n dangos ein hymagwedd at ymgorffori **FREDIE** ym mhopeth a wnawn.

“Mae gan Pobl hanes cyson o ymgysylltu uchel â **FREDIE gydag ymdrech i'w wreiddio ar draws elfennau amrywiol y busnes. Roedd y safon uchel a'r 'cyrhaeddiad' cyson hwn ar gyfer gwelliant pellach yn amlwg unwaith eto gydag adolygiad ailddilysu, gyda chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adfywio cymunedol.”**

Canolfan Genedlaethol ar gyfer Aseswyr Amrywiaeth - Ionawr 2020

Cefnogir yr ymrwymadau a nodir yn y ddogfen hon gan bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Pobl, y mae copi ohono ar gael ar ein gwefan.

Gallwch hefyd weld ein hadroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau diweddaraf ar ein gwefan. Os credwch y gallwch ein helpu i gyflawni ein hymrwymadau neu os hoffech wybod mwy am ein sefydliad, yna cysylltwch â ni:

Ewch: www.poblgroup.co.uk

Ffôn: 0330 175 9726

Cyfeiriad: Exchange House, Stryd Fawr, Casnewydd NP20 1AA

E-bost: contact@poblgroup.co.uk



This document is available in English. Alternative formats are available on request. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

